**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
23 Mai 2023

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Mae’r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) 2023 (O.S. 2023/506 (Cy.76) (“y Rheoliadau Gwreiddiol”)

Mae cynnwys, diben ac effaith y Rheoliadau hyn yn union yr un fath â’r Rheoliadau Gwreiddiol.

Gwnaeth y Rheoliadau Gwreiddiol ddiwygiadau i reoliadau caffael cyhoeddus amrywiol yn y Deyrnas Unedig at ddiben gweithredu rhwymedigaethau caffael mewn dau Gytundeb Masnach Rydd y mae’r Deyrnas Unedig wedi ymrwymo iddynt, un ag Awstralia, a’r llall â Seland Newydd i'r graddau y maent yn ymwneud ag awdurdodau Cymreig datganoledig. Caiff deddfwriaeth weithredu debyg ei gosod gan Lywodraeth y DU ar gyfer awdurdodau contractio yng Nghymru a Lloegr nad ydynt yn Awdurdodau Cymreig datganoledig ac ar gyfer Gogledd Iwerddon a chan Lywodraeth yr Alban ar gyfer awdurdodau contractio yn yr Alban.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Diben y Rheoliadau hyn yw dirymu a disodli’r Rheoliadau Gwreiddiol mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad (Rhif Adroddiad SL(6)356)

Effaith y Rheoliadau hyn fydd cyflawni rhwymedigaeth i weithredu’r Cytundebau Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia a’r DU a Seland Newydd mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig Cymru (“y Cytundebau Masnach Rydd”).

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023 yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl i’r offeryn gael ei osod. Mae angen i’r Rheoliadau ddod i rym y diwrnod ar ôl i’r rheoliadau cyfatebol a wnaed gan Lywodraeth y DU ddod i rym, ar 25 Mai 2023. Mae hyn i sicrhau y gellir gweithredu Cytundebau Masnach Rydd yn llawn ledled y Deyrnas Unedig. Felly bydd Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023 yn dod i rym ar 26 Mai 2023.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1(1) a (2), a 2(1)(b), (c) a (d) o Ddeddf Masnach (Awstralia a Seland Newydd) 2023[(1)].

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud drwy'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

Mae diwygiadau yn ofynnol i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 er mwyn gweithredu'r cytundebau masnach rydd yr ymrwymwyd iddynt rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ac Awstralia, a Theyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Seland Newydd.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Llywodraethir caffael cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon gan y rheolau yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 (“rheoliadau caffael presennol”).

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhoi effaith yn y rheoliadau caffael presennol i'r rhwymedigaethau caffael cyhoeddus a geir yn y ddau Gytundeb Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia a'r DU a Seland Newydd o ran Awdurdodau Cymreig datganoledig, (o fewn ystyr adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[(2)]).

Cafodd Cytundeb Masnach Rydd y DU-Awstralia ei lofnodi ym mis Rhagfyr 2021 a chafodd Cytundeb Masnach Rydd y DU-Seland Newydd ei lofnodi ym mis Chwefror 2022. Er mwyn rhoi penodau caffael y llywodraeth y Cytundebau Masnach Rydd hyn ar waith mae'n ofynnol i ddiwygio rheoliadau caffael y DU.

Mae angen eu rhoi ar waith yn ddomestig  cyn i'r Cytundebau Masnach Rydd ddod i rym yn ffurfiol er mwyn sicrhau nad yw'r DU yn torri'r cytundebau.

Mae a wnelo'r diwygiadau technegol i'r tair set o Reoliadau â'r tri maes canlynol:-

**a) gwerth contract anhysbys:** pan na ellir amcangyfrif gwerth caffaeliad, mae’r caffaeliad i’w drin fel pe bai ei werth wedi ei bennu ar y trothwy perthnasol ar gyfer y math hwnnw o gaffaeliad;
**b) hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw:** i ddileu’r posibilrwydd o ddefnyddio hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw a hysbysiad dangosol cyfnodol, yn y drefn honno, fel yr alwad am gystadleuaeth;
**c) terfynu contractau a ddyfarnwyd er mwyn osgoi rhwymedigaethau o dan ein cytundebau rhyngwladol:** gwahardd awdurdodau contractio a

---

([1]) 2023 p. 9.
([2]) 2006 p. 32. Mewnosodwyd adran 157A yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 gan adran 4(1) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

chyfleustodau rhag terfynu contractau mewn modd sy’n osgoi rhwymedigaethau yng Nghytundeb Masnach Rydd y DU-Awstralia.

Mae'r holl reoliadau caffael presennol yn cynnwys Atodlen sy'n rhestru cytundebau rhyngwladol sy'n cynnwys rhwymedigaethau caffael cyhoeddus y mae awdurdodau contractio yn y DU yn ddarostyngedig iddynt. Mae Llywodraeth y DU yn diwygio'r rheoliadau caffael presennol er mwyn ychwanegu Cytundebau Masnach Rydd Awstralia a Seland Newydd at yr Atodlenni hynny ar gyfer awdurdodau contractio sy'n Awdurdodau Cymreig nad ydynt wedi eu datganoli a bydd y Rheoliadau hyn yn diwygio'r Atodlenni hynny fel eu bod hefyd yn gymwys i awdurdodau Cymreig datganoledig.

Bydd y newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymwys i'r holl waith caffael sy'n ddarostyngedig i gyfundrefn ddomestig y DU, nid dim ond yr hyn a gwmpesir gan y Cytundebau Masnach Rydd ag Awstralia / Seland Newydd. Drwy fethu ag estyn yr un telerau i aelodau eraill o Gytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau Sefydliad Masnach y Byd byddai'r DU yn torri ei rhwymedigaethau o dan y cytundeb hwnnw. Fel y cyfryw, rhaid i'r darpariaethau diwygio sy'n rhoi'r newidiadau a bennir ar waith gael effaith gyffredinol yn hytrach na bod yn benodol ar gyfer cyflenwyr Awstralia neu Seland Newydd.

## 5. Ymgynghori

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol cyfyngedig i ddeddfwriaeth ddomestig er mwyn gweithredu rhwymedigaethau caffael a amlinellir yng Nghytundebau Masnach Rydd Seland Newydd ac Awstralia. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am Gytundebau Masnach Rydd. Mae Senedd y DU eisoes wedi craffu ar y manylion fel rhan o broses Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yn ogystal ag yn ystod hynt Deddf Masnach (Awstralia a Seland Newydd) 2023.

Ni ellir newid y polisi ar yr adeg hon ac felly ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Effeithiau Eraill

Mae’r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud drwy arfer pwerau o fewn adran 1(1) o Ddeddf Fasnach (Awstralia a Seland Newydd) 2023. Mae adran 1(1) yn datgan y gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i weithredu penodau caffael y llywodraeth yn y Cytundeb Masnach Rydd. I bob golwg, felly, ymddengys bod gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn o ran a ddylid gwneud rheoliadau o’r fath, a dylid llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel rheol o dan yr amgylchiadau hyn.

Yn ymarferol, fodd bynnag, unwaith yr oedd Gweinidogion Cymru wedi gwneud y penderfyniad i beidio â chaniatáu i lywodraeth y DU ddeddfu mewn perthynas â Chymru, roedd yn *ofynnol* iddynt, yn y bôn, i weithredu penodau caffael y llywodraeth er mwyn cydymffurfio â’u rhwymedigaethau rhyngwladol. Rydyn ni

o’r farn, felly, fod paragraff 3.2 o gôd asesiad effaith rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn berthnasol yn y sefyllfa hon, yn benodol yr eithriad sy’n ymwneud â phwerau statudol a roddir gan Ddeddf neu Fesur nad yw mewn unrhyw ffordd yn rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru o ran sut y dylai’r pwerau hynny gael eu harfer.

Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

At hyn, gan fod y diwygiadau yn ymwneud â diwygiadau technegol bach i’r rheoliadau caffael presennol, ac y tybir bod yr effaith ar fusnesau, sefydliadau ac ati yn fach, ni chynhaliwyd asesiad effaith ffurfiol.